

PUGH, EDWARD (c. 1761 - 1813), peintiwr map-ddarluniau a golygfeydd

Enw: Edward Pugh
Dyddiad geni: c. 1761
Dyddiad marw: 1813
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: peintiwr map-ddarluniau a golygfeydd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth
Awdur: Megan Ellis

Dywedir iddo gael ei eni yn Rhuthyn. Dangoswyd 23 o'i ddarluniau yn yr Academi Frenhinol rhwng 1793 a 1808, y mwyafrif ohonynt yn fân-ddarluniau, gan gynnwys un darlun o **Thomas Edwards** ('Twm o'r Nant'). Ymddengys mai yn Llundain y treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn ystod y blynyddoedd hyn er mai yng Nghaerlleon y ceir ei gyfeiriad yn 1800. Dangoswyd un darlun arall o'i eiddo yn yr Academi yn 1821. Dywedir iddo ymuno â chorfflu gwirfoddol o artistiaid yn 1803. Defnyddiwyd darluniau o'i eiddo ar gyfer *Modern London*, a gyhoeddwyd yn 1805, ac ysbrydolwyd ef gan Boydell i ysgrifennu disgrifiad o Ogledd Cymru. Cyhoeddwyd y gwaith hwn, ynghyd â dros 70 o ddarluniau gan yr awdur, yn 1816, ar ôl marw Pugh, dan y teitl *Cambria Depicta: A Tour through North Wales*. Yn ôl y rhagair, dyddiedig yn Rhuthyn, 10 Mai, 1813, bu wrth y gwaith am naw mlynedd. Bu farw Edward Pugh, a ddisgrifir fel 'limner,' yn Well Street, Rhuthyn, yn 52 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Rhuthyn 20 Gorffennaf 1813.

Awdur

Megan Ellis, (1906 - 2001)

Ffynonellau

Basil Long, *British Miniaturists* (1929)

Graves, *The Royal Academy of Arts* (1905â€"6)

cofysgrifau esgobaeth Llanelwy yn LI.G.C.

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edward Pugh

Gweithiau

Edward Pugh, DV DV407 (4to): *Cambria Depicta*

John Chapman a Edward Pugh, *The Cambrian Shakespeare*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 21929881

Wikidata: Q18200042

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ôl gŵyl
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government